Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2026 Rhif 67

## Rheoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Cymru) 2026

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *4 Mawrth 2026* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2026* |

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2026 No. 67

## The Inspection of Education and Training (Wales) Regulations 2026

| | |
|---|---|
| *Made* | *4 March 2026* |
| *Coming into force* | *1 April 2026* |

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L   C Y M R U

# 2026 Rhif 67

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Cymru) 2026

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Cymru) 2001, a wnaed o dan Ran 4 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000.

O dan Bennod 2 o Ran 2 o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 ("Deddf 2022"), rhaid i Brif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru gynnal arolygiadau mewn cysylltiad ag addysg a hyfforddiant penodol a chaiff hefyd gynnal arolygiadau ardal. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch y ddwy ffurf ar arolygu.

Mae rheoliad 1 yn nodi'r dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym ac yn diffinio Deddf 2022.

Mae rheoliad 2 yn pennu'r ysbeidiau y mae'n ofynnol cynnal arolygiadau o addysg a hyfforddiant penodol ynddynt.

Mae rheoliad 3 yn pennu'r cyfnod y mae'n ofynnol i adroddiadau arolygu gael eu gwneud ynddo yn achos arolygiadau addysg a hyfforddiant penodol a'u cyhoeddi ynddo yn achos arolygiadau ardal.

Mae rheoliad 4 yn dirymu Rheoliadau sy'n ymwneud ag arolygu addysg a hyfforddiant a wnaed o dan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Y Gyfarwyddiaeth Addysg Drydyddol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2026 Rhif 67

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Cymru) 2026

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *4 Mawrth 2026* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2026* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 57(4), 63(9)(b), 143(2) a 146(1)(a) a (2) o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022(**1**).

Yn unol ag adran 57(5) o'r Ddeddf honno, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ac â Phrif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

### Enwi, dod i rym a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Cymru) 2026.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2026.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Deddf 2022" yw Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022.

### Ysbeidiau arolygu

**2.** Yn Nhabl 1, mae Colofn 2 yn pennu, at ddibenion adran 57(4)(a) o Ddeddf 2022, fesul pa ysbaid y mae rhaid cynnal arolygiadau (ac eithrio'r arolygiadau o dan adran 57(1)(d) o Ddeddf 2022) mewn perthynas â'r amgylchiad cyfatebol a bennir yng Ngholofn 1.

**Tabl 1**

| *Colofn 1*<br>*Yr amgylchiadau* | *Colofn 2*<br>*Fesul pa ysbeidiau y mae rhaid cynnal arolygiadau* |
|---|---|
| Pan na fo'r addysg neu'r hyfforddiant sydd i'w harolygu neu ei arolygu wedi cael ei harolygu neu ei arolygu o dan adran 77 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau | O fewn y cyfnod o chwe blynedd sy'n dechrau â'r dyddiad y cododd dyletswydd Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru o dan yr adrannau |

(**1**) 2022 dsc 1.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

| *Colofn 1*<br>*Yr amgylchiadau* | *Colofn 2*<br>*Fesul pa ysbeidiau y mae rhaid cynnal arolygiadau* |
|---|---|
| 2000(**2**) neu o dan adran 57 o Ddeddf 2022. | hynny mewn cysylltiad â'r addysg sydd i'w harolygu neu'r hyfforddiant sydd i'w arolygu. |
| Pan gynhaliwyd arolygiad o dan adran 77 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 ond nid o fewn y cyfnod sy'n dechrau â 1 Medi 2024 ac sy'n dod i ben â 31 Mawrth 2026. | O leiaf unwaith o fewn y cyfnod sy'n dechrau â 1 Ebrill 2026 ac sy'n dod i ben â 31 Awst 2030. |
| Ym mhob achos arall (gan gynnwys pan gynhaliwyd arolygiad o ganlyniad i'r naill neu'r llall o'r amgylchiadau a bennir uchod). | O leiaf unwaith o fewn y cyfnod o chwe blynedd sy'n dechrau â 1 Medi 2030 ac o leiaf unwaith o fewn pob cyfnod dilynol o chwe blynedd gan ddechrau ar ddiwedd y cyfnod blaenorol. |

**Adroddiadau arolygu**

**3.** At ddibenion adrannau 57(4)(b) a 63(9)(b) o Ddeddf 2022—

(a) mae adroddiad o dan adran 57(3) o Ddeddf 2022 i'w wneud, a

(b) mae adroddiad o dan adran 63(8) o Ddeddf 2022 i'w gyhoeddi,

cyn diwedd y cyfnod o 35 o ddiwrnodau gwaith(**3**) sy'n dechrau â'r diwrnod gwaith ar ôl y diwrnod y cwblheir yr arolygiad.

**Dirymiadau**

**4.** Mae'r offerynnau a restrir yng ngholofn (1) o Dabl 2 wedi eu dirymu i'r graddau a nodir yng ngholofn (3) o Dabl 2.

**Tabl 2**

| *(1) Yr Offeryn Statudol a ddirymir* | *(2) Y Cyfeirnod* | *(3) Graddau'r dirymu* |
|---|---|---|
| Rheoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Cymru) 2001(**4**) | O.S. 2001/2501 (Cy. 204) | Y Rheoliadau cyfan |
| Rheoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Diwygio) (Cymru) 2004 | O.S. 2004/783 (Cy. 80) | Y Rheoliadau cyfan |
| Gorchymyn Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu'r Cyngor) 2005(**5**) | O.S. 2005/3238 (Cy. 243) | Paragraff 21 o Atodlen 2 |
| Rheoliadau Addysg (Diwygiadau ynglŷn â'r Ysbeidiau rhwng Arolygiadau Addysg a Hyfforddiant) (Cymru) 2010(**6**) | O.S. 2010/1436 (Cy. 127) | Rheoliad 3 |

(**2**) 2000 p. 21.
(**3**) *Gweler* paragraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4) am y ddiffiniad o "diwrnod gwaith".
(**4**) Diwygiwyd gan O.S. 2004/783 (Cy. 80), O.S. 2005/3238 (Cy. 243), O.S. 2010/1142 (Cy. 101), O.S. 2010/1436 (Cy. 127), O.S. 2014/1212 (Cy. 128), O.S. 2016/135 (Cy. 65) ac O.S. 2020/37 (Cy. 4).
(**5**) Mae diwygiadau nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**6**) Mae diwygiadau nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

| *(1) Yr Offeryn Statudol a ddirymir* | *(2) Y Cyfeirnod* | *(3) Graddau'r dirymu* |
|---|---|---|
| Rheoliadau Addysg (Diwygiadau sy'n Ymwneud ag Arolygu Addysg a Hyfforddiant) (Cymru) 2014(**7**) | O.S. 2014/1212 (Cy. 128) | Rheoliad 3 |
| Rheoliadau Addysg (Diwygiadau ynglŷn â'r Ysbeidiau rhwng Arolygiadau Addysg a Hyfforddiant) (Cymru) 2016 | O.S. 2016/135 (Cy. 65) | Rheoliad 2 |
| Rheoliadau Addysg (Diwygiadau ynglŷn â'r Ysbeidiau rhwng Arolygiadau Addysg a Hyfforddiant) (Cymru) 2020 | O.S. 2020/37 (Cy. 4) | Rheoliad 2 |

*Vikki Howells*
Y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, un o Weinidogion Cymru
4 Mawrth 2026

(**7**) Mae diwygiadau nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2026 No. 67

# EDUCATION, WALES

# The Inspection of Education and Training (Wales) Regulations 2026

## EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations revoke and replace the Inspection of Education and Training (Wales) Regulations 2001, which were made under Part 4 of the Learning and Skills Act 2000.

Under Chapter 2 of Part 2 of the Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022 ("the 2022 Act"), His Majesty's Chief Inspector of Education and Training in Wales must carry out inspections in respect of specific education and training and may also carry out area inspections. These Regulations make provision about both forms of inspection.

Regulation 1 sets out the date on which these Regulations come into force and defines the 2022 Act.

Regulation 2 specifies the intervals at which inspections of specific education and training are required to be carried out.

Regulation 3 specifies the period within which inspection reports for both inspections of specific education and training and area inspections are required to be made and published respectively.

Regulation 4 revokes Regulations concerning the inspection of education and training made under the Learning and Skills Act 2000.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Tertiary Education Directorate, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2026 No. 67

# EDUCATION, WALES

## The Inspection of Education and Training (Wales) Regulations 2026

| | |
|---|---|
| *Made* | *4 March 2026* |
| *Coming into force* | *1 April 2026* |

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred on them by sections 57(4), 63(9)(b), 143(2) and 146(1)(a) and (2) of the Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022(**1**).

In accordance with section 57(5) of that Act, the Welsh Ministers have consulted the Commission for Tertiary Education and Research and His Majesty's Chief Inspector of Education and Training in Wales.

### Title, coming into force and interpretation

**1.**—(1) The title of these Regulations is the Inspection of Education and Training (Wales) Regulations 2026.

(2) These Regulations come into force on 1 April 2026.

(3) In these Regulations, "the 2022 Act" means the Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022.

### Inspection intervals

**2.** In Table 1, Column 2 specifies, for the purposes of section 57(4)(a) of the 2022 Act, the interval at which inspections (except inspections under section 57(1)(d) of the 2022 Act) must be conducted in relation to the corresponding circumstance specified in Column 1.

**Table 1**

| *Column 1*<br>*Circumstances* | *Column 2*<br>*Intervals at which inspections must be conducted* |
|---|---|
| Where the education or training to be inspected has not been inspected under section 77 of the Learning and Skills Act | Within the period of six years beginning with the date on which the duty of His Majesty's Chief Inspector of Education and Training |

(**1**) 2022 asc 1.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

| *Column 1*<br>*Circumstances* | *Column 2*<br>*Intervals at which inspections must be conducted* |
|---|---|
| 2000(**2**) or under section 57 of the 2022 Act. | in Wales under those sections arose in respect of the education or training that is to be inspected. |
| Where there has been an inspection under section 77 of the Learning and Skills Act 2000 but not within the period beginning with 1 September 2024 and ending with 31 March 2026. | At least once within the period beginning with 1 April 2026 and ending with 31 August 2030. |
| In all other cases (including where an inspection has been conducted as a result of either of the circumstances specified above). | At least once within the period of six years beginning with 1 September 2030 and at least once within every subsequent six-year period beginning at the end of the previous period. |

**Inspection reports**

**3.** For the purposes of sections 57(4)(b) and 63(9)(b) of the 2022 Act—

(a) a report under section 57(3) of the 2022 Act is to be made, and

(b) a report under section 63(8) of the 2022 Act is to be published,

before the end of the period of 35 working days(**3**) beginning with the working day after the day on which the inspection is completed.

**Revocations**

**4.** The instruments listed in column (1) of Table 2 are revoked to the extent indicated in column (3) of Table 2.

**Table 2**

| *(1) Statutory Instrument revoked* | *(2) Reference* | *(3) Extent of revocation* |
|---|---|---|
| The Inspection of Education and Training (Wales) Regulations 2001(**4**) | S.I. 2001/2501 (W. 204) | The whole Regulations |
| The Inspection of Education and Training (Amendment) (Wales) Regulations 2004 | S.I. 2004/783 (W. 80) | The whole Regulations |
| The National Council for Education and Training for Wales (Transfer of Functions to the National Assembly for Wales and Abolition) Order 2005(**5**) | S.I. 2005/3238 (W. 243) | Paragraph 21 of Schedule 2 |

(**2**) 2000 c. 21.
(**3**) *See* paragraph 1 of Schedule 1 to the Legislation (Wales) Act 2019 (anaw 4) for the definition of “working day”.
(**4**) Amended by S.I. 2004/783 (W. 80), S.I. 2005/3238 (W. 243), S.I. 2010/1142 (W. 101), S.I. 2010/1436 (W. 127), S.I. 2014/1212 (W. 128), S.I. 2016/135 (W. 65) and S.I. 2020/37 (W. 4).
(**5**) There are amendments not relevant to these Regulations.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

| *(1) Statutory Instrument revoked* | *(2) Reference* | *(3) Extent of revocation* |
|---|---|---|
| The Education (Amendments Relating to the Intervals for the Inspection of Education and Training) (Wales) Regulations 2010(**6**) | S.I. 2010/1436 (W. 127) | Regulation 3 |
| The Education (Amendments Relating to the Inspection of Education and Training) (Wales) Regulations 2014(**7**) | S.I. 2014/1212 (W. 128) | Regulation 3 |
| The Education (Amendments Relating to the Intervals for Inspection of Education and Training) (Wales) Regulations 2016 | S.I. 2016/135 (W. 65) | Regulation 2 |
| The Education (Amendments Relating to the Intervals for Inspection of Education and Training) (Wales) Regulations 2020 | S.I. 2020/37 (W. 4) | Regulation 2 |

*Vikki Howells*
Minister for Further and Higher Education under authority of the Cabinet Secretary for Education, one of the Welsh Ministers
4 March 2026

(**6**) There are amendments not relevant to these Regulations.
(**7**) There are amendments not relevant to these Regulations.